



Gemau a gweithgareddau

Mae yna lawer o gemau a gweithgareddau am eirth y gallwch eu cynnal yn eich picnic i wneud yn siŵr bod pawb yn cael digon o hwyl.

Helfa eirth

Cuddiwch arth ac ysgrifennwch set o gliwiau a fydd yn arwain eich gwesteion at yr arth. Gallwch guddio gwobrau mewn lleoliadau gwahanol a'u rhoi i'r gwestai neu'r tîm cyntaf sy'n dod o hyd i'r arth.

Amser stori

Dewiswch stori am arth i'w darllen yn y picnic, er enghraifft Elen Benfelen a'r Tri Arth, cyfres Alun yr Arth, Un Tedi Mâs o'r Gwely, Dim Gwely Heb Tedi, Winnie-the-Pooh, Rupert the Bear neu Paddington.

Prosiect crefft

Gwnewch fygydau eirth gan ddefnyddio papurau papur. Gallwch ddefnyddio ffyn lolipop i ddal y mygydau neu elastig er mwyn i'r plant allu eu gwisgo nhw. Gallwch lawrlwytho templed mwgwd arth o'n gwefan.

Cyfle i dynnu llun

Peintiwch arth bach mawr ar ddarn o gardfwrdd gan dorri twll lle dylai'r wyneb fod. Gadewch i bob plentyn roi eu hwynebau trwy'r twll a thynnwch lun.

Eirth cerddorol

Torrwch siâp arth i bob gwestai ar wahân i un a'u gosod o amgylch yr ystafell ac annog y gwesteion i ddawnsio i'r gerddoriaeth. Pan fydd y gerddoriaeth yn stopio, rhaid i'r gwesteion rasio i sefyll ar arth. Rhaid i'r gwestai sydd ar ôl heb arth adael y gêm. Gwaredwch un arth ar ddiwedd pob rownd a'r unigolyn olaf sy'n sefyll ar y siâp arth olaf sydd yn ennill.

Pinio calon ar yr arth

Torrwch nifer o siapiau calon, gosodwch lun o arth fach ar y wal a thynnwch lun o galon ar yr arth. Rhowch fwgwd dros lygaid y plant, throwch nhw o amgylch a gadewch iddynt gymryd troeon i geisio pinio'r galon yn y lle cywir. Pwy bynnag sydd agosaf yw'r enillydd.

Ysbyty eirth bach

Crëwch ysbyty eirth bach lle bydd y tedis yn gallu dod i weld y meddyg neu orffwyso os ydynt yn flinedig.

Pasio'r arth

Eisteddwch mewn cylch ac, yn lle pasio parsel, pasiwch dedi yn lle. Pan fydd y gerddoriaeth yn stopio, bydd yr unigolyn sy'n dal yr arth yn ennill gwobr fach. Gwnewch yn siŵr bod pob plentyn yn ennill gwobr.

Syniadau codi arian

Yn ogystal â gofyn am gyfraniad penodol gan bobl sy'n mynychu'r digwyddiad, dyma ddulliau eraill o sicrhau bod eich picnic yn broffidiol.

Cynnal raffl

Gofynnwch i fusnesau lleol roi cynnyrch neu wasanaeth fel rhodd (blwch o siocledi neu frecwast rhad ac am ddim mewn caffi) ac yna cynhaliwch raffl i'r oedolion sy'n mynychu eich digwyddiad.

Peintio wyneb

Gofynnwch am rodd ariannol fach a pheintiwch drwyn neu wisgers ar wyneb eich gwesteion ifanc neu gwahoddwch aelod creadigol o'ch teulu i beintio wyneb eirth!

Gwerthu a phrynu

Gofynnwch i'ch gwesteion gyfrannu at werthiant nwyddau bron yn newydd.

Dyfalu enw'r arth bach

Cynhaliwch gystadleuaeth Enwi'r Arth Bach a gofynnwch i'ch gwesteion dalu i ddyfalu ei enw. Bydd yr enillydd yn ennill y tedi a bydd yr elw'n mynd at Arch Noa!

Ynglyn a Elusen Arch Noa

Mae cynnal Picnic yr Eirth Bach yn ffordd hwyliog a hawdd i gefnogi'r miloedd o blant ledled Cymru sydd angen gofal arbenigol bob blwyddyn yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa.

Y llynedd, gyda chymorth y cyhoedd, cododd ein helusen £7.4m ar ran yr ysbyty er mwyn prynu offer meddygol hanfodol a thalu am wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys pwll hydrotherapi, sganiwr MRI, uned gofal critigol ac arbenigwyr chwarae.

Ond mae ein gwaith yn parhau. Gan weithio wrth ochr â'n cefnogwyr a'r GIG, rydym yn helpu i sicrhau bod Ysbyty Plant Cymru Arch Noa yn datblygu i fod yn un o ysbytai plant gorau'r byd.

Bydd eich picnic yn helpu i gefnogi plant fel...

Reuben

Mae Reuben, sy'n ddwy oed, wedi bod yn breswlydd yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa ers ei fod yn fabi bach. Ond mae ei dîm gofal yn gobeithio y bydd Reuben yn cael mynd adref at ei deulu cyn hir.

Mae Reuben yn dysgu sut i gerdded ar hyn o bryd ac mae'r arbenigwr chwarae, Juliet, wedi creu lolfâ ffug iddo ar y ward yn cynnwys byrddau a chadeiriau sy'n galluogi Reuben i symud o amgylch y lle fel unrhyw ddarpar gerddwr arall. Meddai Juliet:

“Roedd e'n gyndyn i gychwyn ac roedd angen llawer o anogaeth arno, ond mae e'n mynd amdani bellach ac wrth ei fodd.

Mae e'n gallu cerdded gyda help llaw erbyn hyn, sy'n gyflawniad mawr i Reuben a'r staff.”

Mae Reuben yn dechrau gwneud synau ac yn ceisio siarad, felly mae Juliet yn ei annog trwy chwarae gemau ffurfio siâp gyda'r geg. Mae Juliet yn gobeithio y bydd Reuben yn gallu dweud 'Mam' cyn y bydd yn mynd adref. Meddai Juliet: “Mae e'n blentyn mor hapus a hyfryd, o hyd yn gwenu a chwythu cusanau.”

Kieran

Roedd Kieran yn bump pan ddaeth i Ysbyty Plant Cymru Arch Noa i gael llawdriniaeth oherwydd ei fod yn dioddef o diwmor ar yr ymennydd.

Dychwelodd yn ddiweddar er mwyn gwaredu ei chwargen bitwiddol pan welwyd arwyddion cynnar fod y tiwmor yn tyfu'n ôl. Meddai Carol, mam Kieran:

“Mae cael gwybod bod gan eich plentyn diwmor ar yr ymennydd yn brofiad erchyll, yn enwedig pan mae'r tiwmor yn dychwelyd am yr ail waith. Ond mae'r ysbyty wedi bod yn ardderchog.

Pan ddaethom yn ôl y llynedd, fe welom ni nifer o'r un meddygon a nyrsys, a oedd yn galonogol tu hwnt. Ar ôl ymweld â'r ysbyty ar ôl i'r ail gam gael ei gwblhau, rydym yn gwybod pa wahaniaeth mae'r lleoliad a'r cyfleusterau newydd yn ei wneud. Mae Kieran wedi gwella'n dda ac mae'n chwarae pêl-droed eto, ac mae'r diolch am hynny yn mynd i Ysbyty Plant Cymru Arch Noa.”

